# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18/05/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 19/05/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 26/05/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC – Rhoi Prydles hir dymor ar Clwb Hirael yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Bangor**

**PENDERFYNIAD –**

Ildio Prydles bresennol pwyllgor Clwb Hirael a phrydlesu'r eiddo a adnabyddir fel 'Clwb Hirael', Bangor yn hirdymor yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Bangor ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelodau Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lleucu Myrddin<br>Hyfforddai Proffesiynol Rheoli Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 18 /05 / 2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. J. Row |

**Pwnc:** Rhoi Prydles hir dymor ar Clwb Hirael yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Bangor.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**
Ildio Prydles bresennol pwyllgor Clwb Hirael a phrydlesu'r eiddo a adnabyddir fel 'Clwb Hirael', Bangor yn hirdymor yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Bangor ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**
Galluogi'r Cyngor i roi prydles yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Bangor.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad**

Mae Clwb Hirael wedi gweithredu fel Canolfan Gymdeithasol ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol a gwasanaethu trigolion ardal Hirael, Bangor ers pymtheg mlynedd. Mae'r ganolfan wedi ei rhedeg yn llwyddiannus gan bwyllgor gwirfoddol ers i'r adeilad gael ei brydlesu iddynt gyntaf yn 2011, gyda gwasanaethau cymdeithasol, darpariaeth iechyd meddwl, clwb pensiynwyr a llu o gymdeithasau yn defnyddio'r adeilad yn wythnosol.

Mae'r pwyllgor hwnnw wedi teneuo dros y blynyddoedd gyda'r aelod gweithredol olaf erbyn hyn yn ei 80au ac yn barod i ildio'r awennau, ac yn anffodus nid oes gwaed newydd wedi camu i'r adwy gyda'r parodrwydd i'w cymryd.

Yn dilyn trafodaethau rhwng yr aelod honno â Chyngor Dinas Bangor, mae'r Cyngor Dinas yn barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli'r adeilad gan ganiatáu i'r gweithgareddau a chymdeithasau presennol barhau i'w ddefnyddio i sicrhau fod y budd yn parhau i drigolion yr ardal.

Mae Cyngor Dinas Bangor yn sefydliad democrataidd sydd eisoes yn rheoli nifer o adeiladau a thiroedd ar draws Bangor er budd trigolion y ddinas, ac mae'r adnoddau a'r capasiti ganddynt i ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn hefyd.

Wedi gwirio gydag adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd sydd yn berchen yr adeilad, mae tu hwnt i'w hanghenion hwy ac felly pe byddai'r adeilad yn dod yn ôl i feddiant Cyngor Gwynedd byddent yn cyfarwyddo i'w waredu gan gau drysau Clwb Hirael fel Canolfan Gymdeithasol.

Trwy gymeradwyo'r argymhelliad hwn a throsglwyddo'r safle yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Bangor, bydd modd osgoi colli'r adnodd werthfawr hon a sicrhau ei bod yn cael ei rheoli yn effeithlon dros y blynyddoedd i ddod.

O ystyried defnydd yr adeilad fel Canolfan Gymdeithasol fel sydd wedi ei sefydlu ers 2011, nid oes bwriad i dderbyn rhent y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**
Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – Dewi Morgan -
'Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.'

**Swyddog Monitro** – Iwan Evans -
'Amlygir datrysiad pragmataidd sydd yn gwarchod a chynnal adnodd cymunedol pwysig. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.'

**Aelod/au Lleol**:

Cynghorydd Dylan Fernley -
'Rydw i wedi bod yn ymwneud â cheisio cael rhywun i gymryd drosodd rhedeg y clwb gan Jean ers mis Tachwedd, rydw i wrth fy modd bod cyngor y ddinas wedi cynnig goruchwylio rhedeg yr adnodd gwych hwn ar gyfer y gymuned leol, mae gennych fy nghefnogaeth lawn.'

Cynghorydd Nigel Pickavance -
'Dw i'n meddwl mai dyma'r penderfyniad mwyaf synhwyrol i'w wneud. Cyn belled â bod y Gymuned yn cael gwybod am unrhyw gynnydd.'